Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

20.03.26
Annwyl Rieni,

**EISTEDDFOD RHANBARTH YR URDD**- Pob lwc i bawb sy'n cystadlu yfory yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd ym mhafiliwn Llangollen. I'r rhai hynny sydd cystadlu'n unig mewn partïon/ grwpiau torfol- gweler amser ymgynnull.
Parti Cerdd Dant a Parti Deulais - 12:30yp
Côr Cerdd Dant - 1:00yp
Parti Unsain (Blwyddyn 4) – 2.30yp
Parti Llefaru- 4:00 o'r gloch
Côr- 5:00yh

**Llwyddiant Eisteddfod Ddawns**- Da iawn Gwenlli Phillips, Martha Hughes, Doli Nuttall, Twm Phillips ac Henri Hughes am gynrychioli'r ysgol mor dda yn yr Eisteddfod Ddawns wythnos yma. Daeth Dawnswyr Dyffryn Clwyd yn gyntaf gyda Dawnswyr Dyffryn Clwyd Iau yn 2il. Gwych iawn! Pob lwc i chwi yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Fôn a llawer o ddiolch i Mrs Hanna Blackford am hyfforddi.

**Llwyddiant Rygbi Cenedlaethol**- Bu i dîm rygbi'r ysgol berfformio'n arbennig o dda ddoe lawr yn Llanymddyfri. Yn eu 4 gem grŵp yn ystod y bore- bu iddynt guro Dyffryn Rhymni, Ysgol y Dderwen ac Ysgol Model CIW gyda gem gyfartal yn erbyn Ponypool. Yna, aethent ymlaen i rownd gynderfynol y gwpan yn erbyn Ysgol Melin Gruffydd, Caerdydd. Colli o drwch blewyn oedd yr hanes- 3 cais i ddau. Roedd safon y rygbi yn eithriadol o uchel- a dylem fod yn hynod falch o lwyddiant y tîm yn ystod y gystadleuaeth. Braf oedd gweld yr hogiau wrth eu boddau- a braf oedd eu clywed yn morio caneuon cyfoes Cymraeg ar y bws ar y ffordd adref! Profiad arbennig!

**Cystadleuaeth Pêl rwyd Sirol Gymysg yr Urdd-** Pob dymuniad da i'n timau sy'n cystadlu dydd Mawrth nesaf yn y gystadleuaeth yn Ysgol Glan Clwyd- pob lwc i chi gyd.
**Côr Blwyddyn 5 a 6-** Dymuniadau gorau i gôr yr ysgol sy'n perfformio dydd Mercher nesaf yng nghynhadledd genedlaethol mudiad yr 'Inner Wheel' yn Venue Cymru, Llandudno. Mwynhewch y profiad!

**Ffilmio rhaglen 'Gareth yr Orangutan' (Cwmni Da)-** Bydd y cwmni cynhyrchu yn ôl yn yr ysgol dydd Mercher nesaf i gwblhau ychydig o ffilmio ar gyfer rhaglen deledu 'Gareth yr Orangutan' efo disgyblion Blwyddyn 1 a 2.
**Diwedd tymor**- cofiwch, fod yr ysgol yn cau dydd Gwener nesaf (Mawrth 27ain) ar gyfer gwyliau'r Pasg. Bydd yr ysgol yn ail agor i bawb ar ddydd Llun, Ebrill 13eg, 2026.

**Dyfan Phillips**
PENNAETH
Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

*20.03.26*
*Dear Parents,*

***URDD REGIONAL EISTEDDFOD***- *Good luck to everyone competing tomorrow in the Urdd Regional Eisteddfod at Llangollen Pavilion. For those competing only in parties/group competitions, please see the assembly times below:*

*Cerdd Dant Party and Unison / two part Singing Party - 12:30pm*
*Cerdd Dant Choir- 1:00pm*
*Unison Singing Party (Year 4)- 2.30pm*
*Recital Group- 4:00pm*
*Choir- 5pm*

***Dance Eisteddfod Success***- *Well done to Gwenlli Phillips, Martha Hughes, Doli Nuttall, Twm Phillips and Henri Hughes for representing the school so well at this week's Dance Eisteddfod.*
*Dawnswyr Dyffryn Clwyd came first, with Dawnswyr Dyffryn Clwyd Junior in second place in their competition category.. Fantastic! Good luck to you all in the Urdd National Eisteddfod in Anglesey, and many thanks to Mrs Hanna Blackford for coaching.*

***National Rugby Success***- *The school rugby team performed exceptionally well yesterday in Llandovery in the WRSU School District Competition. In their four morning group matches, they beat Dyffryn Rhymni, Ysgol y Dderwen and Ysgol Model CIW, with a draw against Pontypool.They then progressed to the cup semi-final against Ysgol Melin Gruffydd, Cardiff—losing by the narrowest of margins, 3 tries to 2.The standard of rugby was extremely high, and we should be very proud of the team's success throughout the competition. It was lovely to see the boys enjoying themselves—and their singing on the coach ride home was also very memorable!*

***Urdd County Mixed Netball Competition***- *Best wishes to our teams competing next Tuesday in the competition at Ysgol Glan Clwyd—good luck to you all.*
***Year 5 & 6 Choir***- *Best wishes to the school choir performing next Wednesday at the national conference of the 'Inner Wheel' organisation at Venue Cymru, Llandudno.*
***Filming for 'Gareth the Orangutan'*** *(Cwmni Da)- The production company will be back in school next Wednesday to complete some filming for the TV programme Gareth yr Orangutan with Year 1 and 2 pupils.*
***End of Term-*** *A reminder that school closes next Friday (27th March) for the Easter holidays.*
*School will reopen for everyone on Monday, 13th April 2026.*

*Yours sincerely,*

***Dyfan Phillips***
*HEADTEACHER*
*Ysgol Pen Barras*